

19 Gorffennaf 2016

Annwyl Swyddog Cyfrifol

Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer Cymwysterau TGAU a TAG a Gofynion Technegol

Byddwch yn ymwybodol bod Ofqual bellach wedi cadarnhau manylion y gofynion newydd y bydd yn eu cyflwyno i gyd-fynd â'r broses o dynnu *Cod Ymarfer TGAU, TAG a Phrif Ddysgu a Phrosiect* (y '*Cod Ymarfer*') yn ôl. Fel y nodwyd yn flaenorol, bydd Cymwysterau Cymru yn cysoni trefniadau yng Nghymru, cyn belled â phosibl, â'r newidiadau a gyflwynir yn Lloegr. Bydd hyn yn lleihau'r baich ar gyrrff dyfarnu ac yn sicrhau cysondeb a thegwch i ddysgwyr yng Nghymru.

I'r perwyl hwn, heddiw rydym wedi cyhoeddi'r ddwy ddogfen reoliadol newydd ganlynol:

1. Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer cymwysterau TGAU / TAG - <http://qualificationswales.org/media/1907/160718-gcse-and-gce-additional-standard-conditions-final.pdf>
2. Gofynion ar gyfer pennu lefelau cyrhaeddiad penodedig ar gyfer cymwysterau TAG a TGAU - <http://qualificationswales.org/media/1906/160707-requirements-for-setting-specified-levels-of-attainment-final.pdf>

1. Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer TGAU / TAG Mae'r amodau newydd hyn yn cwmpasu dau brif faes:

- i. Adolygiadau, Cymedroli ac Apeliadau; a
 - ii. Pennu Ffiniau TGAU, Safon Uwch ac UG newydd
- i. Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol A - P - Adolygiadau, Cymedroli ac Apeliadau*
- Daw'r amodau newydd hyn i rym o 00.01 awr ddydd lau 18 Awst 2016 ar gyfer cymwysterau TAG.** O'r dyddiad hwn, ni fydd y *Cod Ymarfer* yn gymwys mwyach ar gyfer cymwysterau TAG.

Cymwysterau Cymru

Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701



www.cymwysteraucymru.org

Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

Daw'r amodau i rym o 00.01 awr ddydd Iau 25 Awst 2016 ar gyfer cymwysterau TGAU. O'r dyddiad hwn, ni fydd y *Cod Ymarfer* yn gymwys mwyach ar gyfer cymwysterau TGAU.

Dim ond ar gyfer cymwysterau Prosiect a Phrif Ddysgu y bydd y *Cod Ymarfer* yn aros mewn grym.

Er mwyn rhoi'r un cyfleoedd i ddysgwyr apelio yng Nghymru ag y caiff dysgwyr yn Lloegr, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu ymestyn y broses dreialu sy'n ofynnol gan Ofqual i ddysgwyr yng Nghymru yn ogystal â Lloegr. Golyga hyn y bydd cyrff dyfarnu yn treialu'r seiliau apelio newydd, lle y gall canolfannau herio marc os ydynt o'r farn bod Gwall Marcio wedi'i wneud, ar gyfer Daearyddiaeth Safon Uwch, Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch a Ffiseg Safon Uwch.

ii. *Amod Cydnabod Safonol Ychwanegol Q - Pennu ffiniau graddau TGAU, UG a Safon Uwch*

Daw'r amod hwn i rym o 20 Gorffennaf. Noder nad yw adrannau canlynol y *Cod Ymarfer* yn gymwys mwyach:

- Adran 6 - Dyfarnu, cynnal archif a chyhoeddi canlyniadau
- Atodiad 2 - Graddau ar gyfer TGAU nad ydynt yn defnyddio marciau unffurf
- Atodiad 3 - Cyfuno a graddio ar gyfer cymwysterau sy'n defnyddio marciau unffurf

Unwaith eto, mae hyn yn gyson â threfniadau Ofqual mewn perthynas â phennu ffiniau graddau, fel y cyhoeddwyd ar 24 Mehefin 2016. Tynnir sylw at y mân amrywiadau yng ngeiriad Amod Ofqual isod ac mae'r rhesymeg dros y newidiadau fel a ganlyn:

ASC.Q2 – “The range of evidence to which an awarding organisation has regard for the purposes of this Condition will only be appropriate if it includes evidence of **any one, or more, of the following**” – Mae Cymwysterau Cymru yn pwysleisio na fydd yn bosibl bob tro i gyrff dyfarnu roi tystiolaeth o bob pwynt a restrwyd.

ASC.Q3b – “its rationale for the selection of and **how it has taken that evidence into account.**” – Nid oes angen 'pwysoliad' unrhyw dystiolaeth a ddefnyddiwyd ar Cymwysterau Cymru, ond yn lle hynny mae angen disgrifiad o'r modd yr ystyriwyd y dystiolaeth.

2. Gofynion ar gyfer pennu lefelau cyrhaeddiad penodedig ar gyfer cymwysterau TAG a TGAU

Cyflwynwyd y gofynion hyn oherwydd, **o 20 Gorffennaf 2016**, mae Cymwysterau Cymru wedi tynnu adrannau o'r *Cod Ymarfer* sy'n ymdrin â'r rheolau presennol ar gyfer cymwysterau TGAU (A* i G) ac UG a Safon Uwch etifeddol yn ôl. Mae'r gofynion newydd yn adlewyrchu'r rhai yn y *Cod Ymarfer*. Rydym yn cymhwyso'r un darpariaethau at gymwysterau UG a Safon Uwch diwygiedig.

Os bydd angen eglurhad pellach arnoch, mae croeso i chi gysylltu.

Yn gywir
Laura Porter
Pennaeth Polisi Strategol